Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin y Tywyn**

**Ysgol y Tywyn**
**Llanfihangel yn Nhywyn**
**LL65 3LW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

03/05/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chylch Meithrin y Tywyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Cylch Meithrin y Tywyn |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Mewnosod â llaw<br><br>Dyma'r arolygiad cyntaf ers ail gofrestru. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Mewnosod â llaw<br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu *'Cynnig Rhagweithiol'* o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae barn a diddordebau'r plant yn cael eu gwerthfawrogi a gweithredir arnynt. Maent yn ymdopi'n dda â'r ffaith eu bod wedi'u gwahanu oddi wrth eu rhieni / gofalwyr oherwydd eu bod yn cael croeso cynnes gan y staff. Mae'r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig ac yn mwynhau gwneud dewisiadau am yr hyn y maent am chwarae ag ef. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r rheini sy'n gofalu amdanynt yn gyson gadarnhaol ac, o ganlyniad, mae'r plant yn ymgysylltu â'u gweithgareddau ac yn ymddiddori ynddynt. Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth yn briodol. Mae gan y staff agwedd gynnes a chyfeillgar at roi gofal. Maent yn canmol y plant am eu hymdrechion a'u cyflawniadau yn dda. Mae'r gweithgareddau'n ddiddorol ac wedi'u trefnu'n dda. Mae'r staff yn hyrwyddo arferion iach ac yn datblygu sgiliau corfforol a sgiliau echddygol manwl y plant yn gadarnhaol drwy weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r amgylchedd yn lân, yn groesawgar ac wedi'i addurno mewn ffordd ddeniadol. Mae amrywiaeth o adnoddau a theganau sy'n briodol i oedran. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli Cylch Meithrin Tywyn yn briodol, ond mae angen datblygu nifer o feysydd ymhellach. Mae'r lleoliad yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg a darperir y 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig.  Maent yn mwynhau mynd ar drywydd eu diddordebau eu hunain ac yn datblygu eu medrau corfforol yn dda drwy ystod eang o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac yn mynegi eu hunain yn dda.  Dywedodd un o'r plant wrthym ei fod yn hoffi dod i'r lleoliad i chwarae gyda'i ffrindiau a'i fod yn mwynhau bwyta mefus.  Mae'r plant yn cael trafodaethau bywiog gyda'r staff am eu teuluoedd, a dywedodd plentyn yn llawn cyffro ei fod wedi prynu cacen ben-blwydd i'w 'fam'.

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu.  Maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi oherwydd eu bod yn cael ymateb prydlon i'w ceisiadau.  Mae'r plant yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol, yn ymolchi eu dwylo cyn amser bwyd, ac yn atgoffa'u ffrindiau pan ddaw'n amser tacluso eu teganau.  Maent yn ei chael yn rhwydd mynd at y staff, er enghraifft pan syrthiodd plentyn oddi ar ei gadair.  Aeth at y staff i gael mwythau a mwynhau stori yn cael ei darllen iddo yn y gornel glyd. Helpodd hyn iddo setlo.

Mae'r plant yn cydweithio'n gadarnhaol gyda'u ffrindiau a'r rheini sy'n gofalu amdanynt.  Maent yn eistedd yn braf wrth y bwrdd am eu prydau bwyd ac yn ymarfer dangos cwrteisi.  Mae'r plant yn ymfalchïo yn eu rôl fel cynorthwyydd am y dydd wrth iddynt weini eu ffrindiau'n hapus gyda phowlenni o ffrwythau wedi'u torri'n fân amser byrbryd.  Maent yn dysgu i rannu a chymryd eu tro.  Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd adeiladu, cymerodd y plant eu tro i ddefnyddio'r offer a gwnaethant gydweithio'n dda wrth iddynt esgus taenu concrit ar y briciau i adeiladu wal.

Mae'r plant yn ymgysylltu â'u chwarae a'u dysgu yn llawn.  Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau amser cylch, gan ddefnyddio iaith arwyddion a symudiadau wrth ganu eu hoff ganeuon.  Creodd y plant olygfa hyfryd o fuarth fferm gan ddefnyddio ystod o wahanol bropiau a ffigurynnau fferm.  Gwnaethant enwi'r anifeiliaid a dweud pa un oedd yn fwy ac yn llai.  Wrth chwarae yn yr awyr agored, datblygodd y plant eu dychymyg yn weithredol, gan sylwi ar y byd naturiol trwy weithgareddau garddio ac archwilio pryfed.  Er enghraifft, gwnaethant ddringo i mewn i'r llong môr-ladron bren a chwerthin wrth iddynt godi'r faner benglog a chroes esgyrn. Gwnaethant annog eu ffrindiau i ddod ar daith gyda nhw wrth iddynt esgus bod yn yrrwr trên.  Dangosodd y plant, yn llawn cyffro, y camau yr oeddent yn eu cymryd i blannu hedyn mefus.  Gwnaethon nhw gludo'r pridd yn ofalus i'r dysglau plannu a chasglu dŵr yn y caniau dyfrio i wlychu'r pridd.

Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn briodol, maent yn gwisgo'u cotiau a'u hesgidiau cyn mynd allan i chwarae.  Maent yn archwilio eu hardal chwarae gan wneud dewisiadau a dilyn eu diddordebau eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol gan y staff.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y staff agwedd gyfeillgar a gofalgar ac maent yn rheoli rhyngweithio yn gadarnhaol. Maent yn canmol y plant yn gyson am eu hymdrechion ac yn dathlu eu cyflawniadau.

Mae gan y staff ddealltwriaeth briodol o weithdrefnau diogelu ac maent yn gweithredu'r polisïau yn briodol. Mae'r hyfforddiant diogelu a chymorth cyntaf yn gyfredol ac yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n derbyn gofal. Ni welsom unrhyw gewynnau'n cael eu newid a gofynnwyd i'r staff drafod y camau y byddent yn eu cymryd. Nid oedd y gweithdrefnau a ddangoswyd bob amser yn unol â'r canllawiau rheoli heintiau cyfredol. Er enghraifft, ni wnaeth y staff sicrhau eu bod yn ymolchi eu dwylo rhwng newid eu menig tafladwy. Mae staff yn cadw cofnodion o ddamweiniau a digwyddiadau yn gywir ac yn hysbysu rhieni amdanynt yn gyson. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gofnod o sut mae damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau presennol yn cael eu hadolygu fel rhan o arfer diogelu ehangach y lleoliad. Mae'r staff yn cynnal driliau tân i sicrhau bod y plant yn gwybod beth i'w wneud os bydd yn rhaid iddynt adael y safle mewn argyfwng, a gwneir cofnod o'r canlyniad.

Mae'r staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn annog y plant i ymolchi eu dwylo ac mae hyn yn helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn dda. Mae'r staff yn hybu arferion bwyta'n iach ac mae dewis o ddŵr neu laeth i'r plant ei yfed. Maent yn cynnal digon o weithgareddau awyr agored sydd wedi'u trefnu'n dda i annog plant i chwarae yn yr awyr iach a datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus.

Mae'r staff yn rhoi croeso cynnes i'r plant, ac mae hyn yn eu helpu i ymgartrefu'n gyflym. Maent wedi creu amgylchedd cartrefol ac maent bob amser ar gael i roi mwythau o gysur pan fo angen. Mae'r staff yn canmol y plant am eu hymdrechion ac yn ymhyfrydu yn eu cyflawniadau. Maent yn ymateb yn brydlon i geisiadau'r plant ac yn sensitif i'w hanghenion unigol.

Mae'r staff yn trefnu gweithgareddau diddorol drwy ymateb yn dda i geisiadau a diddordebau'r plant. Arweiniodd yr unigolyn â gofal drafodaethau gweithredol am y tywydd a sut i dyfu llysiau a blodau. Creodd y staff amgylchedd braf yn ystod adegau adrodd straeon, a gwahoddwyd y plant i gymryd rhan mewn pwyntio at luniau penodol ac ateb cwestiynau. Maent yn olrhain dysgu a chynnydd plant mewn modd addas ond mae diffyg gwybodaeth wrth baratoi ar gyfer y camau nesaf yn natblygiad y plentyn. Mae ffotograffau o blant yn eu dangos yn brysur wrth gyflawni gweithgaredd, er enghraifft gwisgo i fyny mewn hetiau gwahanol, ymarfer eu sgiliau cydbwyso, chwarae offerynnau cerdd a chodi arian at elusen.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel a glân lle gall y plant chwarae a dysgu yn llwyddiannus.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod staff yn cynnal arferion glanhau addas ac yn dilyn y canllawiau cyfredol ar reoli heintiau. Mae asesiadau risg a gwiriadau iechyd a diogelwch dyddiol yn nodi'n briodol y peryglon posibl i'r plant a pha fesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Mae gwybodaeth ar gael i bawb am sut y dylent ymdrin ag argyfyngau. Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn briodol yn ystod eu gweithgareddau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod cynllun yr ystafell chwarae a'r ardal chwarae awyr agored yn hybu annibyniaeth y plant, gan olygu eu bod yn rhydd i archwilio a gwneud eu dewisiadau eu hunain ynghylch yr hyn y maent am chwarae ag ef. Mae ystod dda o deganau ac adnoddau ar gyfer yr oedrannau sy'n derbyn gofal ac mae dodrefn o faint priodol ar gael i'r plant. Mae'r ardaloedd clyd lle cynhelir amser tawel a gorffwys yn ddeniadol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y storfa deganau ac adnoddau dan do yn addas ac yn hygyrch i'r plant. Mae man penodol wedi'i neilltuo i'r plant ar gyfer storio'u heitemau personol, ac mae hynny'n creu ymdeimlad o berthyn. Ceir rhai adnoddau sy'n codi ymwybyddiaeth y plant o'r byd o'u cwmpas ac o'u hetifeddiaeth Gymreig, er enghraifft doliau, offerynnau cerdd, arddangosfeydd wal a llyfrau. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r maes hwn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gwaith celf y plant yn cael ei gyflwyno mewn ffordd ddeniadol sy'n dangos i'r plant fod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi trefnu ardaloedd dysgu diddorol ac mae amrywiaeth dda o adnoddau naturiol ar gael i ddatblygu medrau synhwyraidd y plant. Mae adnoddau addas y tu mewn a'r tu allan i gynorthwyo chwarae a chwilfrydedd y plant, gan gynnwys tywod, pridd a dŵr.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi trefnu'r ardal chwarae awyr agored yn ddeniadol er mwyn helpu i ddatblygu medrau corfforol ac echddygol manwl y plant yn dda. Maent yn darparu cyfleoedd da i blant i ddysgu am y byd natur ac wedi trefnu mannau diddorol i'r plant blannu a thyfu llysiau, ffrwythau a blodau.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth — Digonol

Mae'r unigolyn â gofal yn frwdfrydig ac yn ymroddedig i wneud gwelliannau.  Mae hi wedi gweithio’n galed i feithrin tîm cryf ac mae’n meithrin partneriaethau cadarnhaol gyda rhieni/gofalwyr a’r gymuned leol.

Mae’r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi ysgrifennu datganiad o ddiben, sy'n rhoi rhan fwyaf o'r wybodaeth ofynnol i rieni am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig.  Fodd bynnag, nid yw'r ddogfen hon wedi'i chyfieithu i'r Saesneg er mwyn ei chynnwys yn y pecynnau croeso i rieni di-Gymraeg.  Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac mae'r rhain yn cael eu gweithredu'n briodol a’u hadolygu'n rheolaidd.  Mae gan y bobl sy’n cynnal y lleoliad ddealltwriaeth dda o’u cyfrifoldeb dros hyrwyddo’r Gymraeg ac mae'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ yn cael ei ddarparu.

Mae'r adroddiad sy'n adolygu ansawdd y gofal yn llawn gwybodaeth ac yn fyfyriol, gan bwysleisio gwelliannau a wnaed a gweledigaeth y bobl sy'n cynnal y lleoliad ar gyfer y dyfodol.  Mae'r adroddiad yn cynnwys y sylwadau a gasglwyd gan rieni ond nid gan blant, staff na’r asiantaethau allanol y mae’r lleoliad yn ymwneud â nhw, er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i blant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sicrhau bod y gwiriadau datgelu a gwahardd ar gyfer staff yn gyfredol.  Mae'r hyfforddiant perthnasol i staff yn gyfredol.  Mae gwelliannau wedi'u gwneud, ac mae ffeiliau'r staff a'r plant yn cynnwys yr wybodaeth ofynnol.  Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod presenoldeb y plant a'r rhai sy'n gofalu amdanynt yn cael ei gofnodi'n briodol.

Mae'r unigolyn â gofal yn ymroddedig. Dywedodd wrthym ei bod yn edrych ymlaen at ysgogi gwelliannau ar gyfer y plant a gweithio'n agos â'i staff i helpu i ddatblygu eu hymarfer.  Dywedodd y staff wrthym eu bod yn derbyn goruchwyliaeth anffurfiol.  Cynhelir gwerthusiadau a chofnodir y trafodaethau hyn yn briodol.  Dywedodd y staff wrthym fod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn “gefnogol” a’u bod ar gael bob amser os oes angen. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl a’u bod yn cael eu “gwerthfawrogi”.

Gwnaethom siarad â rhieni a ddywedodd eu bod yn “hapus iawn” gyda'r lleoliad oherwydd bod eu plentyn wedi ymgartrefu.  Dywedodd un o’r rhieni fod y staff yn “gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt”.  Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi ymgysylltu â'r gymuned leol, gan wahodd staff o ganolfan leol yr Awyrlu Brenhinol i ymweld â'r plant a siarad â nhw, ac maent yn datblygu partneriaethau gyda'r ysgol gynradd leol.  Dywedodd yr unigolyn â gofal wrthym fod ganddi gynlluniau pellach i adeiladu ar bartneriaethau cadarnhaol gyda'r gymuned leol drwy drefnu digwyddiadau i blant gymryd rhan ynddynt, er mwyn helpu i wella sgiliau cymdeithasol plant yn y dyfodol.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1: Adolygu damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau presennol yn rheolaidd fel rhan o arfer diogelu ehangach y lleoliad.

A2: Ffurfioli goruchwyliaeth un-i-un gyda staff, gan gofnodi'r trafodaethau am eu hymarfer, eu datblygiad a'u hyfforddiant.

A3: Sicrhau bod y datganiad o ddiben a dogfennau cysylltiedig megis polisïau a gweithdrefnau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn cynnig gwasanaeth dwyieithog.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chafodd ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 28 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i choladu yn ffeiliau cyflogaeth y staff.  Mae angen i'r unigolyn cyfrifol gasglu'r holl wybodaeth ofynnol er mwyn pennu addasrwydd aelodau’r staff i ddiogelu plant. | Cyflawnwyd |
| 30 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i chasglu yng nghofnodion unigol y plant. Mae angen i'r unigolyn cyfrifol gasglu a chwblhau'r wybodaeth hon i sicrhau bod anghenion unigol pob plentyn yn cael eu diwallu. | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy’n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy’n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i’w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni’r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i’w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy’n effeithio’n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 23/06/2022